Y Parchedig Owain Llyr Evans
2002-

Sefydlwyd y Parchedig Owain Llyr Evans yn weinidog Eglwys Minny Street, 5 Hydref 2002. Cyn dod atom yr oedd yn weinidog ar eglwysi Annibynwyr a Bedyddwyr yn y Rhos, Ponciau a Wrecsam. Dyma'r tro cyntaf yn ei hanes i Eglwys Minny Street roi galwad i weinidog o Fedyddiwr ac yn sicr ni fu'n edifar ganddi!

Mae'n holl bortreadau o weinidogion a fu'n gwasanaethu yn Eglwys Minny Street hyd at ddyfodiad Owain yn rhoi cyfrif am gyfnod a fu: profiad gwahanol iawn yw ceisio creu portread o'n gweinidog presennol yn ei Eglwys ei hun.

Byddai dweud ei fod yn weinidog ieuanc, brwdfrydig a deinamig yn rhy arwynebol; byddai canmol ei bregethu, amrediad a dyfnder ei fyfyrdodau, ehangder ei ddiddordebau o fyd y celfyddydau a'r asbri a ddaw i bopeth a wna yn dweud llawer amdano, ac eto ni fyddai'n cyfleu'r berthynas arbennig y mae Owain wedi ei chreu rhyngddo a'i Eglwys.

Mae ei weledigaeth yn glir: mae am iddi fod yn Eglwys gynhwysfawr, yn gartref ysbrydol i bawb - 'o'r ieuengaf i'r hynaf' a dyfynnu un o'i hoff ymadroddion. Mae'r modd y mae wedi sicrhau bod y plant yn cael lle canolog yn hanner cyntaf yr oedfa bob reol, a'r paratoad amlwg ar gyfer sgyrsiau'r plant, yn tystio i'r weledigaeth hon. Mae am ein gweld yn Eglwys sydd yn tystiolaethu yn ei chymdeithas, nid yn encilio y tu mewn i'w phedair wal. Ei anogaeth gyson i'w haelodau yw iddynt fyw eu cred a dangos eu ffydd yn eu bywyd beunyddiol. Cred mewn wynebu her yr oes, ei thrychinebau anodd i'w deall a'u derbyn, ei gwerthoedd sigledig, a'r diffyg deialog rhwng y Cristion a'r gwyddonydd. Myn ddefnyddio dawn a doniau celfyddyd, llenyddiaeth a cherddoriaeth i oleuo a chyfleu neges yr Efengyl. Yn ogystal ag oedfaon y Sul, cred yng ngwerth cyfarfodydd bychain cyson yn y capel a grwpiau trafod ar aelwydydd aelodau'r Eglwys, oll yn agored i bawb ac yn gyfle i ailystyried ac i drafod rhannau cyfarwydd o'r Ysgrythur a chwestiynau moesol dyrys, i wyntyllu a mynegi sicrwydd cred yn ogystal ag amheuon, hyder yn ogystal â phryder. Nodweddir y cyfan gan baratoi gofalus ar ei ran, a chan arweiniad doeth a gwrandawiad caredig.

Mae ei lafur yn estyn y tu hwnt i'w ofalaeth ym Minny Street: mae'n gyfrannwr cyson i'r cyfryngau; yn 2005 cyhoeddwyd *O'r Ty i'r ty* - cyfrol o fyfyrdodau ar gyfer pob dydd o'r wythnos; cafwyd detholiad personol ganddo o Lyfr y Salmau ar gryno ddisg ddiwedd 2007 *Cenwch yn Llafar* gyda nifer o leisiau cyfarwydd yn cyflwyno 66 o'r Salmau; ef hefyd fu'n gyfrifol am esbonio a dehongli Maes Llafur yr Oedolion yn y papurau enwadol yn ystod 2007-8.

Ni fyddai portread o Owain yn gyflawn heb gyfeirio at Lona ei briod sydd, yn ei eiriau ei hun, yn gymar a chefn cadarn iddo, yn gydweithwraig berffaith yn eu gofal o ieuenctid yr Eglwys. Daeth dyfodiad Shani a Connor ar eu haelwyd â llawenydd i ni oll.

(Bethan Jones, Glyn E. Jones *allan o* ***Llewyrch Ddoe, Llusern Yfory***. 2009. *Gol:* J. Gilbert Evans, Glyn E. Jones, Iolo M.Ll. Walters; cyhoeddwyd gan Eglwys Annibynnol Minny Street Caerdydd)